# BETHLEHEM
## Gwaelod y Garth

**Cylchlythyr**
**i aelodau**

**a) YMDDEOLIAD Y PARCHEDIG T. J. DAVIES**

Fel y gwyddoch, Ionawr 2, Sul Cymun cynta'r flwyddyn, fydd ei wasanaeth olaf fel ein gweinidog ac y mae cyfarfodydd yn cael eu trefnu, i nodi gwerthfawrogiad yr eglwys iddo am ei waith fel bugail, Nos Wener, 28 Ionawr a Dydd Sul, Ionawr 30. Y bwriad yw ei anrhegu yn ystod y cyfarfodydd hyn ac yr ydym yn eich gwahodd fel aeloda(au) i wneud dau beth:-

i) Llofnodi cyfarchion iddo ar dudalennau arbennig fydd yn cael eu rhywmo'n llyfr llofnodion unigryw. Bydd eich cyswllt lleol o blith y diaconiaid [gweler isod] yn dosbarthu'r tudalennau i chi cyn hir. Dychwelwch hwy'n fuan - erbyn Ionawr 2, fan bellaf - ac am resymau amlwg peidiwch a thrafod y darpariaethau hyn gyda "T.J."!

ii) Gwahoddwn chi hefyd i gyfrannu'r ariannol tuag at dysteb iddo - cewch ei roi i un o'r trysoryddion neu i'r diacon a enwir yn isod. Unwaith eto, anelwch i wneud hyn erbyn Suliau cynta'r flwyddyn os oes modd, ond gellir eu derbyn hyd at wythnos cyn y cyfarfod anrhegu - sieciau'n daladwy i "Bethlehem, Gwaelod y Garth"

**b) CYSWLLT LLEOL**

Gan y byddwn yn wynebu cyfnod heb wasanaeth olynydd i'n gweinidog, mae'r cwrdd diaconiaid yn awyddus fod pob aelod yn gwybod sut i gysylltu a'r diacon(iaid) sy'n gweithredu fel cyswllt yn eich ardal. Y rhain fydd yn trefnu fod ardaloedd yn cynnal gwasanaethau ar Suliau gwag, rhoi gwybod i'r diaconiaid yn ganolog am unrhyw anghenion ymweld, salwch aelodau, ymholiadau bedydd, priodasau, angladdau a.y.b. ac (fel y cyfeiriwyd uchod) yn dosbarthu a chasglu eich llofnodion a chyfraniadau tuag at dysteb "T.J.".

Dyma'r diacon(iaid) sy'n gweithredu fel cyswllt yn eich ardal:

............................................................ ....................................

............................................................ ....................................

**c) I'CH DYDDIADUR**

Dyma rai dyddiadau i chwi eu rhoi yn eich dyddiadur dros gyfnod y Nadolig a'r Calan.

**Rhagfyr 19** - hwyr - gwasanaeth Nadolig yr Ysgol Sul
**Bore'r Nadolig** (bore Sadwrn)- gwasanaeth
**Gwyl San Steffan** (Sul) - Plygain yn yr hwyr
**Ionawr 2 , 2000** - Cymun
**Ionawr 9** - oedfa'n y bore - Pasiant Caib yn yr hwyr
**Ionawr 28/30** - Gwerthfawrogiad o weinidogaeth y Parchedig T. J. Davies

*Diaconiaid Bethlehem*

**Gweinidog:** Y Parchedig Ddr. T.J. Davies, 6 Pine Tree Close, Radur, Caerdydd, CF4 8RQ; (FFôn: 843750)
**Cyd-Ysgrifenyddion y Cyhoeddiadau:** Miss Carol Davies, 3 Louise Court, Hazlehurst Road, Ystum Tâf, Caerdydd, CF4 2FY; (Ffôn 560439)
Miss Nerys Williams, 2 Bryn Rhosyn, Radur, Caerdydd, CF4 8RN; (Ffôn 843670)
**Trysoryddion:** Peredur Evans, 23 Alfreda Road, Yr Eglwysnewydd, Caerdydd, CF4 2EH; (Ffôn 621266)
Eufryn Thomas, 10 Bryn Castell, Radur, Caerdydd, CF4 8RA; (Ffôn 842083)
**Cofrestydd:** June Huws, 3 Garth Villas, Gwaelod-y-Garth, Caerdydd, CF4 8HL; (Ffôn 810149)
**Ysgrifennydd Cyffredinol:** Ifan Roberts, Ty Cnau, Cefn Bychan, Pentyrch, Caerdydd, CF4 8PG; (Ffôn: 890493)